Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Cenarth**
**Cenarth**
**Castellnewydd Emlyn**
**Ceredigion**
**SA38 9JP**

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 02/07/2015**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Cenarth ym mhentref Cenarth yng Ngheredigion. Mae'n gwasanaethu'r pentref a'r ardal gyfagos. Darpara addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 mlwydd oed.

Ar hyn o bryd, mae 76 o ddisgyblion ar y gofrestr ac maent wedi eu rhannu'n bedwar dosbarth. Mae tua wyth y cant o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n is o lawer na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Daw 88% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Saesneg yn brif iaith yr aelwyd. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir ethnig lleiafrifol. Mae'r ysgol yn nodi bod gan 29% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Penodwyd y pennaeth cyfredol i'w swydd ym mis Medi 2012. Ym Medi 2013, crëwyd partneriaeth ag Ysgol Trewen ac yna ym mis Ebrill 2015 daeth Ysgol Cenarth yn rhan o ffederasiwn tair ysgol, gan gynnwys Ysgol Beulah. Yn dilyn y newidiadau hyn, penodwyd aelodau staff newydd yng nghyfnod allweddol 2. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Mawrth 2010.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2014-2015 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Cenarth yw £3,712. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Ceredigion yw £8,697 a'r isafswm yw £3,038. Mae Ysgol Gynradd Cenarth yn 30ain allan o'r 51 ysgol gynradd yng Ngheredigion o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Da |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- Bod llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol o'u mannau cychwyn
- Bod medrau darllen ac ysgrifennu llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n effeithiol
- Bod medrau mathemateg llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda drwy'r ysgol
- Bod y disgyblion yn ymddwyn yn gwrtais
- Bod yr ysgol yn gymuned ofalgar lle mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel
- Bod gan yr ysgol ystod o bartneriaethau effeithiol

Fodd bynnag:

- Yng nghyfnod allweddol 2, nid yw'r disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn eu medrau darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg
- Mae ansawdd sillafu, llawysgrifen a chyflwyniad y gwaith yn amrywio ar draws yr ysgol
- Nid yw disgyblion mwy galluog yn cyflawni cystal ag y gallent
- Nid yw'r cynllunio yn rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion ymestyn eu gwaith ysgrifenedig
- Mae ansawdd yr addysgu yn amrywio
- Mae'r gyfundrefn asesu ac asesu ar gyfer dysgu yn dal i ddatblygu

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- Bod gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel a gweledigaeth glir ar gyfer datblygu'r ysgol
- Bod ethos o gydweithio fel tîm yn bodoli
- Bod ffocws clir a chadarn ar godi safonau
- Bod yr ysgol yn ymateb yn effeithiol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol
- Bod cyfundrefn hunanarfarnu wedi gwreiddio'n dda
- Bod y cynllun datblygu yn cynnwys blaenoriaethau priodol

Fodd bynnag:

- Nid yw'r corff llywodraethol wedi datblygu ei rôl fel cyfaill beirniadol yn effeithiol

## Argymhellion

A1 Codi safonau darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg yng nghyfnod allweddol 2

A2 Gwella ansawdd sillafu, llawysgrifen a chyflwyniad gwaith disgyblion ar draws yr ysgol

A3 Cryfhau'r cynllunio ar gyfer y medrau i sicrhau her i'r disgyblion mwy galluog a chyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion hŷn ysgrifennu'n estynedig

A4 Gwella ansawdd yr addysgu drwy sicrhau bod gan athrawon ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion, eu bod yn paratoi deunydd addas ar gyfer y gwahanol alluoedd a'u bod yn cryfhau'r gweithdrefnau asesu ac asesu ar gyfer dysgu

A5 Datblygu rôl y llywodraethwyr wrth herio'r ysgol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae llawer o ddisgyblion yn cychwyn yn yr ysgol â medrau sylfaenol sy'n is na'r disgwyl. Maent yn gwneud cynnydd priodol o'u mannau cychwyn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n dda ac yn ymateb yn hyderus yn y dosbarthiadau ac wrth drafod eu gwaith.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae medrau darllen ac ysgrifennu llawer o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall llawer ddarllen gyda rhugldder ac ysgrifennu darnau addas yn annibynnol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cyfyng yn eu medrau darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Er eu bod yn mwynhau darllen a dangos diddordeb yn y testunau, mae llawer yn darllen heb fynegiant nac yn defnyddio'r uwch fedrau, fel rhagfynegi a dadansoddi testunau, yn llwyddiannus. Mae diffyg hyder yn cael effaith ar rugldder y darllen yn y ddwy iaith.

Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn cynhyrchu darnau ysgrifenedig priodol ar gyfer ystod o bwrpasau. Maent yn ysgrifennu darnau addas o farddoniaeth, yn adolygu llyfrau ac yn creu portreadau syml o'u hunain. Fodd bynnag, ychydig o'r disgyblion sy'n ysgrifennu'n estynedig mewn pynciau eraill ar draws y cwricwlwm. Ychydig sy'n ailddrafftio eu gwaith yn effeithiol.

Mae ansawdd sillafu, llawysgrifen a chyflwyniad y gwaith yn amrywio ar draws yr ysgol. Fodd bynnag, mae'r ysgol yn gweithio i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion ac mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar y safonau.

Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn briodol. Maent hefyd yn defnyddio eu medrau meddwl ac ymchwilio yn addas yn eu gwaith thema.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn eu gwaith. Nid yw disgyblion mwy galluog yn cyflawni cystal ag y gallent.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o'r disgyblion yn meddu ar fedrau mathemateg pen da. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu defnyddio eu medrau rhif yn llwyddiannus ar gyfer datrys problemau neu i weithio'n annibynnol. Mae bron pob un yn gallu adnabod siapiau a disgrifio eu nodweddion drwy ddefnyddio iaith fathemategol yn dda. Mae medrau trin data rhan fwyaf y disgyblion yn dda. Mae'r mwyafrif yn medru ymresymu'n rhifyddol yn briodol ar gyfer eu hoedran.

Yng nghyfnod allweddol 2 mae rhan fwyaf y disgyblion yn meddu ar fedrau rhif da. Mae’r rhan fwyaf yn medru cymhwyso eu medrau yn y pedair gweithred yn llwyddiannus. Mae medrau mesur a data rhan fwyaf y disgyblion, yn enwedig y rhai ar frig yr ysgol, yn dda. Mae ymresymu rhifyddol mwyafrif y disgyblion yn briodol ar gyfer eu hoedran. Mae disgyblion yn defnyddio’u medrau rhifedd yn dda ar draws y cwricwlwm.

Mae’r niferoedd isel o ddisgyblion yn golygu nad yw cymhariaeth perfformiad cyffredinol yr ysgol mewn asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 â meincnodau cenedlaethol yn ddibynadwy.

Yn y Cyfnod Sylfaen, dros y tair blynedd ddiwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg, amrywiodd perfformiad yr ysgol ar y deilliant 5 disgwyliedig rhwng y 25% isaf a’r 50% uwch mewn medrau llythrennedd a rhwng y 50% is a’r 25% isaf mewn datblygiad mathemategol. Roedd perfformiad disgyblion ar y deilliant uwch na’r disgwyl, sef deilliant 6, mewn medrau llythrennedd yn gyson yn y 50% is yn ystod yr un cyfnod ac wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a’r 50% is mewn medrau mathemateg. Mae’r merched wedi tueddu perfformio’n well na’r bechgyn mewn medrau llythrennedd a mathemateg dros y tair blynedd.

Yng nghyfnod allweddol 2, dros y pedair blynedd ddiwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg, mae perfformiad disgyblion ar y lefel 4 ddisgwyliedig wedi bod yn gyson yn y 25% isaf neu’r 50% is mewn Saesneg, Cymraeg a mathemateg. Dros yr un cyfnod, mae canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel uwch, sef lefel 5, mewn medrau Saesneg wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a’r 25% isaf ac wedi bod yn y 25% isaf yn weddol gyson mewn Cymraeg a mathemateg.

Mae’r merched wedi perfformio’n well na’r bechgyn ar y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg a Saesneg dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae’r ychydig o ddisgyblion sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim heb berfformio cystal â gweddill y garfan yn 2014 yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yr arolygiad yn dangos bod gwelliannau amlwg yn eu gwaith ac maent bellach yn gwneud cynnydd da.

**Lles: Da**

Mae disgyblion yn hapus iawn ac yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol. Mae bron pob un yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac maent yn datblygu’u ffitrwydd yn dda drwy weithgarwch ysgol iach a chlybiau chwaraeon. Caiff y gweithgareddau hyn effaith gadarnhaol ar eu datblygiad i fod yn unigolion cyfrifol.

Mae ymddygiad y disgyblion ar draws yr ysgol yn dda iawn ac maent yn dangos cwrteisi a pharch at staff ac ymwelwyr. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfrannu’n fuddiol yn y gwersi, yn cydweithio’n effeithiol ac yn cynnal dysgu ei gilydd yn effeithiol yn y dosbarth. Maent oll yn dangos parch a gofal tuag at ei gilydd.

Mae gwaith y cyngor ysgol, cyngor iach a chyngor eco yn datblygu’n dda ac mae’r disgyblion yn manteisio ar y cyfle i fod yn rhan o benderfyniadau am ddatblygiad yr ysgol. Er enghraifft, mae’r disgyblion yn falch iawn o’u cyfraniadau at ddatblygu’r ardd a’r ardal tu allan.

Mae'r disgyblion yn cyfranogi mewn nifer o weithgareddau cymunedol ac yn elwa ar y profiadau gwerthfawr i ddatblygu eu medrau cymdeithasol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer yn dangos aeddfedrwydd ac annibyniaeth arbennig wrth reoli'r stondiau amrywiol a chadw cofnodion ariannol.

Mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg, mae cyfraddau presenoldeb wedi codi dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae bellach yn yr 50% uwch. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Darpara'r ysgol ystod o brofiadau addas sy'n ennyn diddordeb rhan fwyaf y disgyblion. Mae'r ddarpariaeth yn bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol.

Mae'r ysgol wedi cychwyn ar y gwaith o gyflwyno gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd i'w chynlluniau tymor byr. Fodd bynnag, nid yw'r cynlluniau tymor hir a chanolig yn darparu cyfleoedd digon cyson i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau ysgrifennu creadigol ac estynedig mewn pynciau eraill ar draws y cwricwlwm, yn arbennig yng nghyfnod allweddol 2.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn llwyddiannus. Mae pob un o'r athrawon yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd mewn gwersi trwy gydol y dydd. Mae ymweliadau â safleoedd lleol hanesyddol a chymryd rhan mewn eisteddfodau yn sicrhau bod disgyblion yn derbyn cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'u hetifeddiaeth. Mae cyfraniad artistiaid a beirdd lleol yn cyfoethogi'r profiadau hyn yn effeithiol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn dda. Mae pwyllgor Eco'r ysgol yn weithgar iawn ac yn ailgylchu deunyddiau gwastraff yn rheolaidd.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn creu ethos gweithgar yn y dosbarthiadau. Mae perthynas waith hyfryd yn bodoli rhwng yr athrawon a'r disgyblion ac, o ganlyniad, mae rheolaeth ddosbarth yn effeithiol. Mae cydweithio llwyddiannus iawn rhwng yr athrawon a'r cymorthyddion.

Yn y mwyafrif o ddosbarthiadau, lle mae'r addysgu ar ei orau, mae'r athrawon yn rhannu nodau'r dysgu yn glir, yn defnyddio dulliau holi yn effeithiol ac yn annog y disgyblion i feddwl ac ystyried yn ofalus. Maent yn sicrhau bod digon o gyfleoedd i ddisgyblion weithio mewn parau ac mewn grwpiau bach trafod. Lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, yn y lleiafrif o ddosbarthiadau, nid oes digon o her a sialens i'r disgyblion, gan gynnwys y rhai mwyaf galluog, ac nid yw disgwyliadau athrawon bob amser yn ddigon uchel. Ar adegau, nid yw'r athrawon yn sicrhau y defnyddir deunydd addas ar gyfer bodloni anghenion penodol pob disgybl.

Mae'r ysgol wrthi'n datblygu system olrhain cynnydd newydd ac mae'n dechrau gwneud defnydd effeithiol o ddata i nodi anghenion disgyblion unigol a threfnu cymorth ychwanegol priodol ar eu cyfer. Mae'r strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn datblygu'n addas ond, ar adegau, anghyson yw'r defnydd ohonynt. Mae'r athrawon yn marcio gwaith y disgyblion yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid ydynt yn rhoi arweiniad yn gyson i'r disgyblion ar yr hyn sydd angen ei wneud i wella eu gwaith.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn bodloni'r gofynion statudol ac yn cynnwys sylwadau pwrpasol ar gynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau llwyddiannus gan yr ysgol i annog disgyblion i fwyta ac yfed yn iach. Mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu'n dda at eu datblygiad a'u lles. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r ysgol wedi llwyddo i hyrwyddo presenoldeb da ac i sicrhau bod rhieni a disgyblion yn bodloni'r disgwyliadau.

Mae'r ysgol yn hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol. Ceir pwyslais arbennig ar werthoedd a pharch yn y dosbarthiadau, y sesiynau cyd-addoli ac mewn cyfnodau amser cylch.

Cydweithia'r ysgol yn dda iawn ag asiantaethau allanol i warchod lles y disgyblion ac i ddarparu ymyrraeth briodol ar gyfer eu hanghenion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan yr ysgol bolisi clir a gweithdrefnau pendant ar gyfer ymateb i anghenion dysgu ychwanegol disgyblion. Ceir darpariaeth gadarn ar gyfer disgyblion sydd wedi eu clustnodi ar gyfer cefnogaeth benodol drwy sesiynau ymyrraeth. Nid yw ychydig o dargedau'r cynlluniau addysg unigol yn ddigon penodol a mesuradwy. Fodd bynnag, maent yn dangos cyfeiriad at ystod fuddiol o strategaethau perthnasol i fodloni anghenion y disgyblion.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae staff yr ysgol yn gweithio'n llwyddiannus i greu cymuned groesawgar a hapus sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal i ddisgyblion. Mae ethos teuluol yn bodoli, sy'n magu parch a chreu ymdeimlad o gyfrifoldeb ymhlith y disgyblion. Mae'r ysgol yn hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at gydraddoldeb ac amrywiaeth drwy gasglu tuag at elusennau ac astudio themâu cwricwlaidd. Ceir polisïau a systemau effeithiol i hybu ymddygiad da.

Mae cyflenwad da o adnoddau ar gael i gyfoethogi'r dysgu, ond mae diffyg gofod i'w storio yn yr ysgol. Mae'r adeilad yn lân ac yn daclus ac mae'r arddangosfeydd sy'n addurno'r dosbarthiadau o safon uchel. Mae'r ardal allanol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn ddeniadol ac yn bwrpasol. Mae'r adeilad a thir yr ysgol yn ddiogel. Gwna'r ysgol y defnydd gorau o'r safle a'r ardal leol i hybu diddordeb y disgyblion ym myd natur a'r amgylchedd o'u cwmpas.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel a gweledigaeth glir sy'n canolbwyntio'n llwyddiannus ar wella safonau. Mae'n rhannu'r weledigaeth hon yn effeithiol gyda'r staff, y disgyblion, y rhieni a'r llywodraethwyr ac yn sefydlu blaenoriaethau clir ar gyfer y dyfodol.

Caiff arweiniad strategol y pennaeth effaith gadarnhaol ar yr ysgol. Mae'r staff yn cefnogi'r pennaeth yn dda ac yn cydweithio fel tîm i gyflawni amcanion yr ysgol. Mae cyfarfodydd staff yn canolbwyntio'n effeithiol ar flaenoriaethau'r cynllun datblygu. Ceir ffocws pendant ar godi safonau a lles y disgyblion. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y disgyblion. Er enghraifft, mae cyfraddau presenoldeb disgyblion wedi codi ac mae medrau iaith disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen a safonau mathemateg drwy'r ysgol wedi codi'n sylweddol yn ddiweddar.

Mae'r ysgol yn bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn dda ac yn rhoi pwyslais arbennig ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol i'r ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o safonau disgyblion a'r blaenoriaethau ar gyfer gwelliant. Fodd bynnag, nid yw eu rôl fel cyfeillion beirniadol trwy herio'r ysgol a monitro'i gweithdrefnau'n fwy ffurfiol wedi datblygu'n llawn hyd yma.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn rhoi darlun clir ac onest o gryfderau a mannau gwelliant yr ysgol ac mae cysylltiad da rhyngddo a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol.

Mae gan yr ysgol drefniadau hunanarfarnu llwyddiannus ac mae'r canfyddiadau sy'n deillio o'r broses yn arwain at dargedau heriol. Mae'r trefniadau hunanarfarnu yn ystyried barn y staff, rhieni, llywodraethwyr a disgyblion yn effeithiol. O ganlyniad, mae gan y rhanddeiliad hyn ddiddordeb yn y cynnydd a wneir.

Mae'r ysgol yn casglu tystiolaeth bwrpasol drwy ddadansoddi ystod o ddata, monitro gwaith disgyblion, arsylwi gwersi, trafod gyda'r disgyblion ac ystyried adroddiadau'r awdurdod lleol. Mae'r adroddiadau sy'n deillio o'r broses yn rhoi arweiniad clir i'r athrawon ar sut i wella safonau a'r ddarpariaeth.

Mae'r cynllun datblygu yn ddogfen effeithiol sy'n cynnwys dangosyddion llwyddiant, cyfrifoldebau staff a chostau ynghyd ag amserlen ar gyfer gwerthuso'r targedau. Mae'r athrawon sydd â chyfrifoldeb am agweddau ar y cynllun yn monitro cynnydd yn erbyn targedau penodol a mesuradwy yn effeithiol.

Mae'r targedau i wella safonau mathemateg a chyraeddiadau disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim eisoes wedi cael effaith gadarnhaol ar eu cyflawniad.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol nifer o bartneriaethau effeithiol sy'n cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion ac yn cyfrannu'n dda at wella safonau.

Mae'r ysgol wedi sefydlu partneriaeth gref gyda'r rhieni drwy ddanfon cylchlythyr wythnosol a dulliau eraill i gyfathrebu â nhw er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd. Mae'r gymdeithas rhieni ac athrawon yn weithgar iawn yn codi arian i gefnogi blaenoriaethau'r ysgol. Er enghraifft, mewn ymateb i gais y disgyblion, maent wedi prynu llyfrau darllen newydd. Mae'r ysgol hefyd wedi creu pecyn gwybodaeth ddefnyddiol sy'n egluro dulliau dysgu mathemateg i rieni. O ganlyniad, mae diddordeb y disgyblion mewn darllen wedi gwella ac mae rhieni yn fwy hyderus i gefnogi eu plant gyda gwaith cartref mathemateg.

Mae partneriaeth dda yn bodoli gyda'r gymuned leol, gyda'r ysgol yn cynnal nifer o weithgareddau yn yr ardal; er enghraifft, drwy ymweld â chartref yr henoed a chynnal cyngherddau lleol. Mae hyn wedi codi ymwybyddiaeth y disgyblion o'u cymuned a'u cynorthwyo i ddysgu am anghenion pobl eraill.

Cydweithia'r ysgol yn effeithiol gydag asiantaethau'r awdurdod lleol ac mae hyn yn cael effaith bositif ar wella ansawdd y ddarpariaeth.

Mae cynllunio strategol gyda'r ysgolion eraill o fewn y ffederasiwn yn cyfrannu'n effeithiol at safoni a chymedroli lefel gwaith y disgyblion a hefyd yn rhoi cyfleoedd i'r athrawon drafod ac efelychu ymarferion da. Mae trefniadau pontio llwyddiannus rhwng yr ysgol a'r ysgolion uwchradd lleol yn sicrhau bod y disgyblion hŷn yn trosglwyddo'n hyderus i'r cam nesaf o'u haddysg.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol nifer briodol o staff ar gyfer nifer y disgyblion a gwna ddefnydd addas o'u harbenigedd i ddarparu ystod o weithgareddau a phrofiadau dysgu.

Mae'r trefniadau rheoli perfformiad yn drylwyr ac mae arweinwyr yn darparu hyfforddiant dilys i athrawon a staff cymorth. Mae hyn yn sicrhau cyfleoedd pwrpasol ar gyfer datblygiad proffesiynol staff, sydd yn ei dro yn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion.

Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithlon o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu ac mae hyn yn cael effaith sylweddol ar safonau. Mae hyn yn cynnwys paratoi deunydd sydd wedi gwella medrau iaith disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen a medrau mathemateg disgyblion drwy'r ysgol.

Mae rhwydweithiau proffesiynol gydag ysgolion y ffederasiwn a phartneriaid eraill yn cael effaith gynyddol ar safonau disgyblion. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi gweithio ar agweddau o fathemateg a pharatoi adnoddau ar y cyd ar gyfer y pwnc.

Gwna'r ysgol ddefnydd pwrpasol o'r grant amddifadedd i godi safonau llythrennedd a rhifedd, ac mae'r gwariant yn cael ei fonitro'n ofalus.

Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn rheoli adnoddau yn briodol ac yn sicrhau bod gwariant yn cysylltu'n addas â'r targedau yn y cynllun datblygu ysgol. O ystyried cyflawniad disgyblion dros gyfnod, digonol yw'r gwerth am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6672367 - YSGOL GYMUNEDOL CENARTH**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 77 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 13.0 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 9 | 11 | 7 |
| | | | |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 77.8 | 90.9 | 85.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 |
| | | | |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| | | | |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 9 | 11 | 7 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 77.8 | 90.9 | 85.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 3 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 22.2 | 18.2 | 28.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 |
| | | | |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 9 | 11 | 7 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 88.9 | 90.9 | 85.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 44.4 | 27.3 | 28.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 3 |
| | | | |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 9 | 11 | 7 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 33.3 | 36.4 | 42.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6672367 - YSGOL GYMUNEDOL CENARTH**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 77 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 13.0 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 6 | 8 | * | 10 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 83.3 | 75.0 | * | 70.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | * | 4 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 6 | 8 | * | 10 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 83.3 | 75.0 | * | 80.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | * | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 0.0 | 25.0 | * | 30.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | * | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 6 | 8 | * | 10 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 66.7 | 75.0 | * | 70.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | * | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 0.0 | 25.0 | * | 0.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | * | 4 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 6 | 8 | * | 10 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 83.3 | 75.0 | * | 90.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | * | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 0.0 | 25.0 | * | 20.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | * | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 6 | 8 | * | 10 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 83.3 | 75.0 | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | * | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 0.0 | 12.5 | * | 20.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | * | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 35 | 35<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 35 | 33<br>94%<br>92% | 2<br>6%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 35 | 35<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 35 | 35<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 35 | 31<br>89%<br>96% | 4<br>11%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 35 | 34<br>97%<br>96% | 1<br>3%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 35 | 35<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 35 | 35<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 35 | 33<br>94%<br>91% | 2<br>6%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 35 | 33<br>94%<br>95% | 2<br>6%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 35 | 20<br>57%<br>77% | 15<br>43%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 35 | 33<br>94%<br>84% | 2<br>6%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

# Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 18 | 15 | 3 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 83% | 17% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 18 | 16 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 89% | 11% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 18 | 18 | 0 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 18 | 13 | 4 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 72% | 22% | 6% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 18 | 12 | 5 | 0 | 0 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 67% | 28% | 0% | 0% | | |
| | | 46% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 18 | 16 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 89% | 11% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 18 | 14 | 3 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 78% | 17% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 17 | 12 | 4 | 0 | 0 | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 71% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 18 | 13 | 4 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 72% | 22% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 33% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 18 | 13 | 4 | 0 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 72% | 22% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 18 | 15 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 83% | 17% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 16 | 10 | 3 | 1 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 62% | 19% | 6% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 17 | 12 | 5 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 71% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 18 | 16<br>89% | 2<br>11% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 18 | 16<br>89% | 2<br>11% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 45% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 17 | 15<br>88% | 1<br>6% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 17 | 8<br>47% | 5<br>29% | 0<br>0% | 0<br>0% | 4 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 43% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 18 | 12<br>67% | 5<br>28% | 1<br>6% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 18 | 15<br>83% | 3<br>17% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 32% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Dr David Gareth Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Mr William Glyn Griffiths | Arolygydd Tîm |
| Mr Jeffrey Wyn Davies | Arolygydd Lleyg |
| Mr Llew (Horatio Richard ) Davies | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mrs Rhianydd James | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.